OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3339 (Cy.302) (C.120)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 12 Rhagfyr 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 128(4) a 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**).

Enwi a Dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dod i rym

2. Yn ddarostyngedig i Erthygl 3, daw adran 63 o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2007.

Arbedion

3. Mae adrannau 42A(1), 43(6B) a 47(3A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**2**), fel maent yn gymwys i unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2007 neu cyn hynny, i barhau i weithredu mewn perthynas â Chymru fel pe nas gwnaethpwyd y diwygiadau i'r adrannau hynny gan adran 63 o'r Ddeddf.

(**1**) 2003 p.26.
(**2**) 1988 p.41.